

# DEDDF GAMBLO 2005

## DATGANIAD O BOLISI TRWYDDEDU

Cymeradwywyd: 28 Tachwedd 2024  
Daeth i rym: 31 Ionawr 2025

Tîm Trwyddedu  
Cyngor Bwrdeisdref Sirol Blaenau Gwent  
Y Swyddfeydd Cyffredinol  
Heol Gwaith Dur  
Glyn Ebwy  
NP23 6DN

## Cynnwys

1.	Datganiad o Bolisi Trwyddedu	3
1.1	Cyflwyniad	3
1.2	Proffil Bwrdeisdref Sirol Blaenau Gwent	4
1.3	Amcanion	4
1.4	Swyddogaethau'r Awdurdod Trwyddedu	5
1.5	Ymgynghoriad	5
1.6	Awdurdodau Cyfrifol	6
1.7	Partion â Diddordeb	6
1.8	Cyfnewid Gwybodaeth	7
1.9	Gorfodaeth	7
1.10	Hawliau Sylfaenol	8
1.11	Integreiddio Strategaethau ac Osgoi Dyblygu	8
1.12	Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol	8
2	Trwyddedau Mangreoedd	9
2.1	Egwyddorion Cyffredinol	9
2.2	Amgylchedd Trwydded Briodol	11
2.3	Mangreoedd "parod ar gyfer gamblo"	11
2.4	Ystyriaethau Eraill	12
2.5	Dyblygu gyda Systemau Rheoleiddiol eraill	12
2.6	Amcanion Trwyddedu	13
2.7	Bet-Watch	15
2.8	Amodau	15
2.9	Goruchwylwyr Drws	17
2.10	Canolfannau Hapchwarae Oedolion	17
2.11	Canolfannau Adloniant Teulu	17
2.12	Casinos	18
2.13	Mangreoedd Bingo	18
2.14	Mangreoedd Gamblo	19
2.15	Traciau	19
2.16	Peiriannau Hapchwarae	20
2.17	Peiriannau Betio	20
2.18	Ceisiadau a chynlluniau	20
2.19	Ffeiriau teithio	21
2.20	Datganiadau Darpariaethol	21
3	Caniatâd/Hysbysiadau Defnydd Dros Dro ac Achlysurol	22
3.1	Unlicensed Family entertainment Centre permits	22
3.2	Caniatâd Peiriant Hapchwarae Mangre Drwyddedig	23
3.3	Caniatâd Hapchwarae Gwobrau	24
3.4	Caniatâd Hapchwarae Clwb a Pheiriannau Clwb	25
3.5	Hysbysiadau Defnydd Dros Dro	26
3.6	Hysbysiadau Defnydd Achlysurol	27
4	Loterïau Cymdeithasau Bach	27
5	Gwneud Penderfyniadau	29
5.1	Gweinyddu, Ymarfer a Dirprwyo Swyddogaethau	29
5.2	Gweithdrefn Apeliadau	29
5.3	Rhoi Rhesymau am Benderfyniadau	29
5.4	Gweithredu Penderfyniad Llys Ynadon	30
5.5	Cwynion yn erbyn Mangre Drwyddedig	30
5.6	Adolygiadau	30
6	Amodau Trwyddedu a Chodau Ymarfer 2015 (LCCP)	31
7	Gwybodaeth Bellach	35
	Atodiad A: Manylion Cyswllt Awdurdodau Cyfrifol	36

Atodiad B: Mynediad i Fangreoedd	37
Atodiad C - Crynodeb o Ddarpariaethau Peiriannau yn ôl Mangreoedd	38
Atodiad D - Schedule of Delegation of Licensing Functions and Decisions	40

## 1. Datganiad o Bolisi Trwyddedu

### 1.1 Cyflwyniad

Mae Deddf Gamblo 2005 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor baratoi a chyhoeddi "Datganiad Polisi Trwyddedu" sy'n nodi'r egwyddorion y mae'r Cyngor yn cynnig eu gweithredu yn ei swyddogaethau trwyddedu wrth ddelio gyda cheisiadau ar gyfer trwyddedau mangre, fel sy'n ofynnol gan y Ddeddf.

Daw'r Datganiad Polisi hwn i rym ar 31 Ionawr 2025. Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn diweddarau a chyhoeddi Polisi Trwyddedu newydd pryd bynnag sydd angen ond beth bynnag o fewn 3 blwyddyn o ddyddiad y polisi yma, a bydd yn ymgynghori'n llawn gyda phartneriaid, cymdeithasau masnach a grwpiau preswylwyr fel sy'n briodol yr adeg honno, a chaiff unrhyw sylwadau a dderbynnir eu hystyried yr adeg honno.

Fodd bynnag, lle mae angen diweddariadau oherwydd newidiadau mewn deddfwriaeth genedlaethol, canllawiau statudol, yn dilyn ymgynghoriadau'r Comisiwn Hapchwarae neu fanylion cyswllt, mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i ddiwygio'r polisi hwn heb ymgynghori lle bo angen i sicrhau bod y polisi'n adlewyrchu deddfwriaeth genedlaethol neu ganllawiau statudol.

Wrth gynhyrchu'r Datganiad Polisi terfynol, mae'r Cyngor yn datgan ei fod wedi rhoi ystyriaeth i amcanion trwyddedu Deddf Gamblo 2005, y Canllawiau i Awdurdodau Trwyddedu a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Gamblo, unrhyw godau ymarfer ac unrhyw ymatebion gan y rhai yr ymgynghorwyd â nhw ar y Datganiad Polisi.

Mae gan y Cyngor ddyletswydd gyfreithiol i gydymffurfio gyda'r holl ddeddfwriaeth sy'n hyrwyddo cydraddoldeb ac mae ganddo bolisi ar gyfer hyrwyddo cydraddoldeb i bawb. Bydd trwyddedu pobl a mangreodded dan Ddeddf Gamblo 2005 yn hyrwyddo gwasanaeth a gorfodaeth cyfartal i bob aelod o'r gymuned.

Mae Deddf Hawliau Dynol 1998 yn cynnwys y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol ac yn ei gwneud yn anghyfreithlon i awdurdod lleol weithredu mewn ffordd sy'n anghymwys gyda hawl o'r fath.

Bydd y Cyngor yn rhoi ystyriaeth i'r Ddeddf Hawliau Dynol wrth ystyried unrhyw faterion trwyddedu, ac yn neilltuoel yng nghyswllt y ffordd y caiff ceisiadau eu hystyried ac y gwneir gweithgareddau gorfodaeth.

Mae'r Cyngor yn cydnabod y gall fod angen iddo ymadael â'r polisi hwn ac unrhyw ganllawiau a gyhoeddwyd dan y Ddeddf mewn amgylchiadau unigol ac eithriadol a lle mae'r achos yn haeddu penderfyniad o'r fath er mwyn hyrwyddo'r amcanion trwyddedu. Caiff unrhyw benderfyniad o'r fath ei gymryd mewn ymgynghoriad gyda'r cynghorwyr cyfreithiol priodol ar gyfer yr Awdurdod Trwyddedu, a chaiff y rhesymau am unrhyw ymadawiad o'r fath eu cofnodi'n llawn.

**NODYN:** Yn y polisi yma, cynhwysir y diffiniadau dilynol i roi esboniad am rai termau a gynhwysir yn y Ddeddf ac, felly, yn y Datganiad o Bolisi Trwyddedu. Mewn rhai achosion maent yn dalfyriad o'r hyn a nodir yn Neddf Gamblo 2005 neu'n ddehongliad o'r termau hynny. Mae'n rhaid i'r darllenwr gyfeirio at Ddeddf Gamblo 2005 i gael diffiniad llawn o'r termau a ddefnyddiwyd.

Mae 'y Cyngor' yn golygu Cyngor Bwrdeisdref Sirol Blaenau Gwent, yn gweithredu fel yr Awdurdod Trwyddedu fel y'i diffiniwyd gan Ddeddf Gamblo 2005.

Mae 'Y Ddeddf' yn golygu Deddf Gamblo 2005.

Mae 'y Cyngor Bwrdeisdref' yn golygu bwrdeisdref sirol Blaenau Gwent.

'Yr Awdurdod Trwyddedu' yw'r awdurdod lle mae'r mangreoedd wedi'u lleoli'n llwyr/rhannol. Mae'r Awdurdod Trwyddedu (fel yn yr awdurdod cyhoeddi) hefyd yn awdurdod cyfrifol.

'Y Comisiwn Gamblo', corff a sefydlwyd gan y Llywodraeth fel y rheoleiddiwr unedig ar gyfer gamblo, yn cymryd lle'r Bwrdd Hapchwarae.

Mae 'Awdurdod Cyfrifol' yn golygu corff cyhoeddus sy'n rhaid ei hysbysu am rai ceisiadau ar gyfer safleoedd a thrwyddedau mangreodd, ac mae ganddynt hawl i wneud sylwadau ar unrhyw un o'r amcanion trwyddedu.

Mae 'Plant' yn golygu unigolion dan 16 oed.

Mae 'Person Ifanc' yn golygu unigolion 16 oed a throsodd ond dan 18 oed.

Mae 'Amodau Gorfodol' yn golygu amod benodol y mae rheoliadau yn ei gosod ar drwyddedau mangreodd.

Mae 'Amodau Diofyn' yn golygu amod benodol y darperir ar ei chyfer mewn rheoliadau i gael ei gosod ar drwydded os na eithrir gan y Cyngor.

Mae 'Mangre' yn golygu unrhyw le, yn cynnwys llong neu strwythur symudol.

## 1.2 Proffil Bwrdeisdref Sirol Blaenau Gwent

Mae Sir Bwrdeisdref Blaenau Gwent yn wledig mewn natur gan bennaf, gyda 10,876 hectar a phoblogaeth o tua 68,900. Er yr ystyriwyd yr ardal yn draddodiadol yn ardal ddiwydiannol, yn bennaf ar gyfer mwyngloddio glo a chynhyrchu dur, mae ei defnydd tir yn awr yn bennaf wledig gyda dros 77% o'r dir yn dir ffermydd, tir comin a gofodau agored a 23% wedi'i ddiffino yn dir trefol.

Mae Blaenau Gwent yn cynnwys tri chwm, Sirhywi, Ebwy Fawr ac Ebwy Fach. Mae chwe phrif dref sef Abertyleri, Brynmawr, Glynebwy, Nantyglo, Blaenau a Tredegar.

## 1.3 Amcanion

Wrth weithredu'r rhan fwyaf o'i swyddogaethau dan Ddeddf Gamblo 2005, mae'n rhaid i'r Cyngor fel yr Awdurdod Trwyddedu roi ystyriaeth i'r amcanion trwyddedu dilynol:

- **Atal gamblo rhag dod yn ffynhonnell troseddu neu anrhefn, bod yn gysylltiedig gyda throseddu neu anrhefn neu gael ei ddefnyddio i gefnogi troseddu;**
- **Sicrhau y cynhelir gamblo mewn ffordd deg ac agored;**
- **Diogelu plant a phobl eraill agored i niwed rhag cael eu niweidio neu gamfanteisio arnynt gan gamblo.**

Dylid nodi fod y Comisiwn Gamblo wedi dweud: "Y gofyniad yng nghyswllt plant yw eu diogelu'n benodol rhag i gamblo eu niweidio neu gamfanteisio arnynt".

Mae'r Cyngor yn gwybod, fel yn Adran 153, wrth wneud penderfynadau am drwyddedau mangreodd a hysbysiadau defnydd dros dro y dylai anelu i ganiatau defnyddio mangreodd ar gyfer gamblo cyn belled ag mae'n credu'n addas:

- Yn unol ag unrhyw god ymarfer perthnasol a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Gamblo;
- Yn unol ag unrhyw ganllawiau perthnasol a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Gamblo;
- Rhesymol gydnaws gyda'r amcanion trwyddedu;
- Yn unol â Datganiad Polisi Trwyddedu'r Cyngor

#### 1.4 Swyddogaethau'r Awdurdod Trwyddedu

Dan y Ddeddf mae'n ofynnol i'r Cyngor:

- Bod yn gyfrifol am drwyddedu mangreoedd lle mae gweithgareddau gamblo i ddigwydd drwy gyhoeddi Trwyddedau Mangreoedd;
- Cyhoeddi Datganiadau Darpariaethol;
- Rheoleiddio clybiau aelodau a sefydliadau lles glowyr sy'n dymuo gwneud gweithgareddau hapchwarae neilltuol drwy gyhoeddi Caniatâd Hapchwarae Clwb a/neu Ganiatâd Peiriant Clwb;
- Cyhoeddi Caniatâd Peiriant Clwb i glybiau masnachol;
- Dyfarnu trwyddedu ar gyfer defnyddio rhai gemau hapchwarae gydag arian chwarae is mewn canolfannau heb drwydded adloniant teulu;
- Derbyn hysbysiad gan fangreoedd gyda thrwydded alcohol (dan Ddeddf Trwyddedu 2003) ar gyfer defnyddio dau neu lai o beiriannau hapchwarae;
- Cyhoeddi Caniatâd Peiriant Gemau Mangreoedd Trwyddedig ar gyfer mangreoedd a drwyddedwyd i werthu/cyflenwi alcohol i'w yfed yn y fangre drwyddedig, dan Ddeddf Trwyddedu 2003 lle mae mwy na dau beiriant;
- Cofrestru loteriau cymdeithas fach dan drothwyon a nodir;
- Cyhoeddi Caniatâd Hapchwarae Gwobrau;
- Derbyn a chymeradwyo Hysbysiadau Defnydd Dros Dro;
- Derbyn Hysbysiadau Defnydd Achlysurol;
- Rhoi gwybodaeth i'r Comisiwn Gamblo parthed manylion trwyddedau a gyhoeddwyd (gweler yr adran islaw ar gyfnewid gwybodaeth);
- Cadw cofrestri o'r caniatadau a thrwyddedau a gyhoeddwyd dan y swyddogaethau hyn.

Dylid nodi nad yw awdurdodau trwyddedu lleol yn cymryd rhan mewn trwyddedu gamblo o bell o gwbl ac y caiff hynny ei reoleiddio gan y Comisiwn Gamblo drwy Drwyddedau Gweithredwyr.

Mae'r Cyngor yn cydnabod mai dim ond un ffordd o hyrwyddo cyflawni'r tair amcan yw'r swyddogaeth drwyddedu ac felly ni ddylid ei ystyried fel ffordd o ddatrys yr holl broblemau o fewn y gymuned. Bydd y Cyngor felly'n parhau i weithio mewn partneriaeth gydag awdurdodau cyfagos, Heddlu Gwent, Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Blaenau Gwent Ddiogelach, Public Health Wales, busnesau lleol, pobl leol a'r rhai sy'n ymwneud ag amddiffyn plant i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu fel y cawsant eu hamlinellu. Mae'r Cyngor hefyd yn cydnabod ei ddyletswydd dan Adran 17 Deddf Troseddu ac Anrhefn 1998 yng nghyswllt atal troseddu ac anrhefn.

#### 1.5 Ymgynghoriad

Mae'r Cyngor wedi ymgynghori'n eang ar y Datganiad yma cyn ei orffen a'i gyhoeddi. Mae rhestr islaw o'r rhai yr ymgynghorwyd â hwy, yn unol â'r Ddeddf a chanllawiau'r Comisiwn Gamblo. Mae manylion pellach, ynghyd â rhestr o sylwadau a wnaed ac ystyriaeth y Cyngor o'r sylwadau hyn ar gael ar gais.

- Prif Swyddog yr Heddlu;

- Yr Awdurdod Tân;
- Cynrychiolwyr deiliaid gwahanol drwyddedau ar gyfer mangreoedd o fewn y Fwrdeisdref Sirol y bydd y polisi hwn yn effeithio arnynt;
- Cyrff yn cynrychioli busnesau a phreswylwyr yn y Fwrdeisdref Sirol;
- Adrannau (yn cynnwys Awdurdodau Cyfrifol) o fewn y Cyngor gyda diddordeb mewn trwyddedu gamblo;
- Rheolwr Gwasanaethau Plant Cyngor Bwrdeisdref Sirol Blaenau Gwent;
- Cynghorau Cymuned a Thref;
- Sefydliadau eraill yr ymddengys fod materion trwyddedu a ddaw o fewn y Datganiad yma yn effeithio arnynt;
- Adran Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi;
- Public Health Wales/local health board

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng 30/5/2024 – 22/8/2024 a, cyn belled ag sy'n ymarferol, dilynodd y Cyngor yr Egwyddorion Ymgynghori a gyhoeddwyd gan y llywodraeth ym mis Hydref 2013 sydd ar gael yn

<https://www.gov.uk/government/publications/consultation-principles-guidance>

Cymeradwywyd y polisi mewn cyfarfod llawn o'r Cyngor ar 28 Tachwedd 2024 a chafodd ei gyhoeddi ar 31 Ionawr 2025 yn ogystal â bod ar gael yn [www.blaenau-gwent.gov.uk](http://www.blaenau-gwent.gov.uk)

## 1.6 Awdurdodau Cyfrifol

Gweithredwyd yr egwyddorion dilynol wrth ymarfer pwerau'r Cyngor dan Adran 157(h) y Ddeddf i ddynodi, mewn ysgrifen, corff sy'n gymwys i gynghori'r Cyngor am amddiffyn plant rhag niwed:

- Yr angen i'r corff fod yn gyfrifol am ardal yn cynnwys holl ardal y Cyngor;
- Yr angen i'r corff gynnwys cynrychiolwyr uwch a chyfrifol o gyrrff cyhoeddus priodol yn ardal y fwrdeisdref sirol, sydd â phrif ddyletswydd a chyfrifoldeb am amddiffyn plant rhag niwed.

Yn unol â chanllawiau'r Comisiwn Gamblo, mae'r Cyngor hwn yn dynodi rheolwr gwasanaethau plant y Cyngor ar gyfer y diben yma. Mae manylion y cyrrff a ddynodir dan y Ddeddf sydd i gael i'w trin fel Awdurdodau Cyfrifol ar gael yn Atodiad A.

## 1.7 Partïon â Diddordeb

Gall Partïon â Diddordeb wneud sylwadau am geisiadau am drwydded neu wneud cais am adolygiad o drwydded bresennol yn seiliedig ar y tri amcan trwyddedu a fanylir ym mharagraff 1.3 y Datganiad Polisi yma.

Parti â Diddordeb yw rhywun:

- sy'n byw'n ddigon agos at y fangre fel bod y gweithgareddau a awdurdodir yn debygol o effeithio arnynt;
- â diddordebau busnes y gallai'r gweithgareddau a awdurdodir effeithio arnynt; neu
- sy'n cynrychioli pobl yn y naill neu'r llall o'r ddau grŵp uchod.

Yr egwyddorion y bydd y Cyngor yn eu defnyddio i benderfynu os yw person yn Barti â Diddordeb yw:

Caiff pob achos ei benderfynu ar ei haeddiant. Ni fydd y Cyngor yn gweithredu rheol anhyblyg at wneud penderfyniadau. Bydd yn rhoi sylw i enghreifftiau o ystyriaethau a roddir

yng nghanllawiau'r Comisiwn Gamblo ar gyfer awdurdodau lleol. Bydd hefyd yn ystyried canllawiau'r Comisiwn Gamblo y dylid rhoi'r dehongliad ehangaf posibl i "ddiddordebau busnes" a chynnwys partneriaethau, elusennau, grwpiau ffydd a meddygfeydd and the health board.

Gall Partïon â Diddordeb fod yn bobl a gafodd eu hethol yn ddemocrataidd, fel Cynghorwyr ac Aelodau Seneddol. Ni fydd angen unrhyw dystiolaeth benodol o gael cais i gynrychioli person â diddordeb cyhyd â bod y Cynghorydd/Aelod Seneddol yn cynrychioli'r ward sy'n debygol o gael ei heffeithio. Heblaw amdanynt hwy, fodd bynnag, bydd y Cyngor fel arfer angen tystiolaeth ysgrifenedig fod person, corff (e.e. eiriolydd/perthynas) yn 'cynrychioli' rhywun sydd un ai'n byw'n ddigon agos at y fangre fel y bydd y gweithgareddau a awdurdodir yn debygol o effeithio arnynt a/neu ddiddordebau busnes y mae'r gweithgareddau a awdurdodir yn effeithio arnynt. Mae gohebiaeth gan un o'r personau hyn yn gofyn am y gynrychiolaeth yn ddigonol.

Os yw unigolion yn dymuno gofyn i gynghorwyr gynrychioli eu barn, yna dylid gofalu nad yw'r cynghorwyr yn rhan o'r Pwyllgor Trwyddedu sy'n delio gyda'r cais am drwydded neu mewn unrhyw ffordd arall â diddordeb personol a fyddai'n eu hatal rhag cymryd rhan mewn gwrandawriad. Gofynnir i chi gysylltu â'r Adran Drwyddedu os oes unrhyw amheuan.

Dylid nodi, yn wahanol i'r Ddeddf Trwyddedu, nad yw'r Ddeddf Gamblo yn cynnwys atal niwsans cyhoeddus fel amcan trwyddedu penodol. Fodd bynnag, mae deddfwriaeth berthnasol arall sy'n ymwneud â niwsans cyhoeddus.

## **1.8 Cyfnewid Gwybodaeth**

Yr egwyddor y bydd y Cyngor yn ei gweithredu yng nghyswllt cyfnewid gwybodaeth rhyngddo a'r Comisiwn Gamblo a'r cyrff hynny a restrir yn Atodlen 6 y Ddeddf yw y bydd yn gweithredu yn unol â darpariaethau Deddf Gamblo 2005 sy'n cynnwys y ddarpariaeth na chaiff Deddf Diogelu Data 1998 ei thorri. Bydd y Cyngor hefyd yn rhoi ystyriaeth i unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan y Comisiwn Gamblo i awdurdodau lleol ar y mater, yn ogystal ag unrhyw reoliadau perthnasol a gyhoeddodd yr Ysgrifennydd Gwladol dan y pwerau a ddarperir yn Neddf Gamblo 2005.

## **1.9 Gorfodaeth**

Egwyddorion y Cyngor yw y caiff ei lywio gan Ganllawiau'r Comisiwn Gamblo i awdurdodau lleol, y Cod Rheoleiddwyr a pholisi gorfodaeth y Cyngor. Bydd yn ymdrechu i fod yn:

- Gymesur - dim ond pan fo angen y dylai rheoleiddwyr ymyrryd, dylai atebion fod yn addas i'r risg a achosir a bod costau'n cael eu dynodi a'u gostwng;
- Atebol - rhaid i reoleiddwyr fedru cyfiawnhau penderfyniadau a bod yn agored i graffu gan y cyhoedd;
- Cyson - rhaid i reolau a safonau fod yn gydlynol a chael eu gweithredu'n deg;
- Tryloyw - dylai rheoleiddwyr fod yn agored, cadw rheoliadau'n syml ac yn gyfeillgar i ddefnyddwyr; ac
- Wedi'u targedu - dylai ffocws rheoleiddiad fod ar y broblem, gan leihau sgil effeithiau.

Yn unol â chanllawiau'r Comisiwn Gamblo i awdurdodau trwyddedu, bydd y Cyngor yn ymdrechu i osgoi dyblygu gyda systemau rheoleiddio eraill cyn belled ag sy'n bosibl.

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu a gweithredu rhaglen arolwg seiliedig ar risg yn seiliedig ar:

- Yr amcanion trwyddedu;



- Codau ymarfer perthnasol;
- Canllawiau a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Gamblo, yn neilltuol yn Rhan 36;
- Yr egwyddorion a nodir yn y Datganiad Polisi Trwyddedu yma;
- Polisi gorfodaeth y cyngor.

Prif rôl gorfodaeth a chydymffurfiaeth y Cyngor yn nhermau'r Ddeddf Gamblo yw sicrhau cydymffurfiaeth gyda Thrwyddedau Mangreoedd a mathau eraill o ganiatâd y mae'n eu hawdurdodi. Y Comisiwn Gamblo yw'r corff gorfodi ar gyfer trwyddedau gweithredwyr a phersonol. Caiff pryderon am weithgynhyrchu, cyflenwi neu drwsio peiriannau hapchwarau eu trin gan y Cyngor ond dylid hysbysu'r Comisiwn Gamblo amdanynt.

Bydd y Cyngor yn rhoi ystyriaeth i ddogfen ganllawiau'r Comisiwn Etholiadau 'Approach to Test Purchasing' wrth ystyried gwneud pryniadau prawf mewn mangreoedd gamblo. Bydd y Cyngor hefyd yn dilyn ei bolisïau a gweithdrefnau ei hun parthed defnyddio prynwyr prawf dan oed.

Bydd y Cyngor hefyd yn ei hysbysu ei hun am ddatblygiadau yng nghyswllt gwaith Swyddfa Cyflenwi Rheoleiddio Gwell wrth ystyried swyddogaethau rheoleiddiol awdurdodau lleol.

### **1.10 Hawliau Sylfaenol**

Dan delerau'r Ddeddf gall unrhyw unigolyn/cwmni wneud cais am amrywiaeth o fathau caniatâd a chael eu ceisiadau wedi eu hystyried ar eu rhinweddau unigol. Yn yr un modd, mae gan unrhyw Barti â Diddordeb neu Awdurdod Cyfrifol hawl i wneud sylwadau perthnasol ar gais neu geisio adolygu trwydded neu dystysgrif lle gwnaed darpariaeth iddynt wneud hynny yn y Ddeddf.

Mae gan ymgeiswyr a rhai sy'n gwneud sylwadau perthnasol yng nghyswllt ceisiadau i'r Cyngor hawl apelio i'r Llys Ynadon yn erbyn penderfyniadau'r Cyngor.

### **1.11 Integreiddio Strategaethau ac Osgoi Dyblygu**

Drwy ymgynghori'n eang cyn cyhoeddi'r Datganiad Polisi yma, bydd y Cyngor yn rhoi ystyriaeth lawn i bolisïau lleol yn cynnwys atal troseddu, diwylliant, cynllunio trafndiaeth, cynllunio a thwristiaeth fel rhan o strategaeth integredig ar gyfer y Cyngor, Heddlu ac asiantaethau eraill. Efallai nad oes cysylltiad uniongyrchol rhwng llawer o'r strategaethau hyn â hyrwyddo'r tri amcan trwyddedu, ond gallant fod ag effaith anuniongyrchol arnynt.

Wrth ystyried unrhyw gais, bydd y Cyngor yn osgoi dyblygu gyda chylfundrefnau rheoleiddio eraill cyn belled ag sy'n bosibl. Felly ni fydd y Cyngor yn rhoi amodau ar drwydded os na ystyrir eu bod yn angenrheidiol, rhesymol a chymesur i ddefnyddio'r fangre ar gyfer gamblo yn gyson gyda'r amcanion trwyddedu.

### **1.12 Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol**

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol yng Nghymru ystyried effaith hirdymor eu penderfyniadau, gweithio'n well gyda phobl, cymunedau a'i gilydd, ac atal problemau parhaus megis tlodi, anghydraddoldebau iechyd a hinsawdd. newid.

Mae'r bartneriaeth strategol leol, Blaenau Gwent, ynghyd â Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent, yn nodi'r Aseiad Llesiant a'r Cynllun Llesiant y gallwch ei weld yma <https://www.gwentpsb.org/cy/>

Dan Ddeddf Troseddau ac Anrhefn 1998 mae'n rhaid i awdurdodau lleol roi ystyriaeth i effaith debygol gweithredu eu swyddogaethau ar atal troseddau ac anrhefn yn yr ardal ac mae'n rhaid iddynt popeth a allant i'w wneud i'w atal. Bydd y Cyngor yn rhoi ystyriaeth briodol i effaith debygol trwyddedau ar droseddau ac anrhefn cysylltiedig yn y fwrdeisdref sirol, yn neilltuol wrth ystyried lleoliad, effaith, gweithrediad a rheolaeth yr holl geisiadau arfaethedig am drwydded/caniatâd, adnewyddu ac amrywio amodau.

## **2. Trwyddedau Mangreoedd**

### **2.1 Egwyddorion Cyffredinol**

Mae Trwyddedau Adeilad yn awdurdodi darparu cyfleusterau gamblo ar y canlynol:-

- Mangreoedd Casino;
- Mangreoedd Bingo;
- Mangreoedd Gamblo (gan gynnwys traciau rasio a ddefnyddir gan gyfryngwyr betio);
- Canolfannau Hapchwarae Oedolion
- Canolfannau Adloniant Teulu

Ac eithrio yn achos Traciau (lle nad y deiliad o bosib yw'r person sy'n cynnig gamblo), dim ond i'r rhai y rhoddir Trwydded Weithredu iddynt gan y Comisiwn Gamblo y bydd Trwyddedau Eiddo yn cael eu rhoi..

Mae Trwyddedau Mangreoedd yn destun i'r gofynion a nodir yn Neddf Gamblo 2005 a rheoliadau, yn ogystal ag amodau gorfodol a diofyn penodol a gaiff eu manylu yn y rheoliadau a gyhoeddir gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Gall awdurdodau trwyddedau eithrio amodau diofyn a hefyd gynnwys eraill, lle credir fod hynny'n briodol.

Mae'r Cyngor yn ymwybodol wrth wneud penderfyniadau am Drwyddedau Mangreoedd y dylai anelu caniatâd defnyddio mangreoedd ar gyfer gamblo i'r graddau y mae:-

- yn cydymffurfio ag unrhyw god ymarfer perthnasol a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Gamblo;
- yn cydymffurfio ag unrhyw ganllawiau perthnasol a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Gamblo;
- yn rhesymol gyson gyda'r amcanion trwyddedau; ac
- yn cydymffurfio â'r Datganiad Polisi yma.

Gall y Cyngor ystyried mesurau i gyflawni'r amcanion trwyddedau megis:

- Cynlluniau prawf oedran
- Teledu cylch cyfyng
- Goruchwylio mynedfeydd/ardaloedd peiriannau
- Gwahanu ardaloedd yn ffisegol
- Lleoliad mynedfa
- Hysbysiadau/arwyddion
- Oriau agor penodol
- Cynlluniau hunan-eithrio
- Darparu taflenni gwybodaeth/rhifau llinell gymorth ar gyfer sefydliadau megis GamCare.

Arwydd o fesurau enghreifftiol yw'r rhestr hon ac nid yw'n orfodol na'n cynnwys popeth.

Gwerthfawrogir megis canllawiau'r Comisiwn Gamblo ar gyfer awdurdodau lleol "nid yw gwrthwynebiadau moesol i gamblo yn rheswm dilys dros wrthod ceisiadau ar gyfer Trwyddedau Mangreoedd" a hefyd nad yw galw nas cyflawnir yn faen prawf ar gyfer awdurdod trwyddedu.

Mae'r Amodau Trwydded a'r Cod Ymarfer (LCCP) a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Gamblo yn rhoi cyfrifoldeb pellach ar fangreoedd i gwblhau asesiad risg yn seiliedig ar cod 8, y cod cyfrifoldeb cymdeithasol. Bydd y Cyngor yn ystyried y cod yma wrth benderfynu ar geisiadau. Rhoddir sylw manwl i hyn yn Adran 6 y datganiad yma.

### **Diffiniad o "Fangre"**

Caiff mangre ei ddiffinnio yn y Ddeddf fel "unrhyw le". Mae Adran 152 felly'n atal mwy nag un trwydded mangre rhag gweithredu ar gyfer unrhyw le. Ond gallai un adeilad fod â mwy nag un drwydded mangre, cyn belled â'u bod ar gyfer gwahanol rannau o'r adeilad ac y gellir yn rhesymol ystyried gwahanol rannau'r adeilad fel bod yn fangreoedd gwahanol. Cymerwyd y dull gweithredu yma i alluogi mangreoedd mawr, uned luosog megis parc pleser, pier, trac neu ganolfan siopa i gael trwyddedau mangre ar wahân, lle mae mesurau diogelu priodol ar waith. Fodd bynnag, dylai awdurdodau trwyddedu roi sylw neilltuol os oes materion am isrannu adeilad neu lain sengl a dylai sicrhau yr arsylwir â'r amodau gorfodol yn ymwneud â mynediad rhwng mangreoedd.

Mae'r Comisiwn Gamblo yn dweud yn ei ganllawiau i Awdurdodau Trwyddedu: "Yn y rhan fwyaf o achosion y disgwyliad yw y bydd un adeilad/llain yn destun cais am drwydded. Ond nid yw hynny'n golygu na all un llain adeiladu fod yn destun trwydded mangre ar wahân, e.e. yr islawr a'r llawr daear, os cawsant eu cyflunio'n dderbyniol. Bydd p'un ai y gellir ystyried gwahanol rannau o'r adeilad yn gywir fel mangreoedd ar wahân yn dibynnu ar yr amgylchiadau. Bydd lleoliad y fangre hefyd yn ystyriaeth bwysig ac mae addasrwydd y rhaniad yn debygol o fod yn fater i'w drafod rhwng y gweithredwr a'r swyddog trwyddedu.

Fodd bynnag nid yw'r Comisiwn yn ystyried ei bod yn gywir ystyried ardaloedd o adeilad sydd wedi eu gwahanu'n artiffisial neu eu gwahanu dros dro, er enghraifft, drwy raffau neu barwydydd symudadwy, fel mangreoedd gwahanol."

Mae'r Cyngor yn rhoi ystyriaeth neilltuol i ganllawiau'r Comisiwn Adeiladu ar gyfer awdurdodau lleol sy'n nodi y dylai awdurdodau trwyddedu gymryd gofal neilltuol wrth ystyried ceisiadau am drwyddedau lluosog ar gyfer adeilad a'r rhai'n ymwneud â rhan ar wahân o'r adeilad sy'n cael eu defnyddio ar gyfer dibenion eraill (heb fod yn gamblo). Yn neilltuol dylent roi ystyriaeth i'r dilynol -

- Mae'r trydydd amcan trwyddedu yn anelu i amddiffyn plant rhag cael ei niweidio gan gamblo. Yn ymarferol mae hynny'n golygu nid yn unig eu hatal rhag cymryd rhan mewn gamblo, ond hefyd eu hatal rhag bod yn agos at gamblo. Felly, dylai mangreoedd gael eu cyflunio fel na wahoddir plant i gymryd rhan yn, cael mynediad damweiniol i neu weld gamblo'n agos lle maent wedi eu gwahardd rhag cymryd rhan;
- Dylai mynedfeydd ac allfannau o rannau o adeilad a ddaw o fewn un neu fwy trwydded mangre fod ar wahân ac yn ddynodadwy fel na chaiff gwahanu mangreoedd gwahanol ei leihau ac nad yw pobl yn "crwydro" i ardal gamblo. Yn y cyd-destun hwn dylai fel arfer fod yn bosibl mynd i'r fangre heb fynd drwy fangre drwyddedig arall neu fangre gyda chaniatâd;
- Dylai cwsmeriaid fedru cymryd rhan yn y gweithgaredd a nodir ar drwydded y fangre.

Mae'r Canllawiau hefyd yn rhoi rhestr o ffactorau y dylai'r awdurdod trwyddedu fod yn gwybod amdanynt, a all gynnwys:

- A oes gan y fangre gofrestrriad ar wahân ar gyfer trethi busnes?
- A yw'r un person neu rywun arall yn berchen y fangre agosaf at y fangre?
- A ellir cael mynediad i unrhyw un o'r mangreoedd o'r stryd neu dramwy cyhoeddus?
- Ai dim ond o fangre gamblo arall y gellir cael mynediad i'r fangre?

## 2.2 Amgylchedd Trwydded Briodol

Rhoddodd y canllawiau i Awdurdodau Lleol a'r Amodau Trwydded a Chodau Ymarfer (LCFCP) faterion ychwanegol y dylai'r Cyngor roi ystyriaeth iddynt wrth ystyried ceisiadau trwydded am drwyddedau mangreoedd.

Mae'r canllaw yn rhagnodi cyfyngiadau ar weithgareddau gamblo ar safle, a elwid gynt yn weithgaredd gamblo sylfaenol. Bydd y Cyngor yn ystyried unrhyw gais sy'n seiliedig ar y darpariaethau yn y codau a'r arweiniad yma.

Lle darperir cyfleusterau gamblo mewn mangreoedd fel gweithgaredd atodol i brif bwrpas y fangre; e.e. ardaloedd gwasanaeth traffyrdd a chanolfannau siopa, bydd y Cyngor yn disgwyl i'r ardal gamblo gael ei diffinio'n glir i sicrhau bod cwsmeriaid yn hollol ymwybodol eu bod yn gwneud dewis i fynd i fangre gamblo, a bod y fangre yn cael ei goruchwyllo'n ddigonol bob amser.

Bydd y Cyngor yn ystyried hyn a ffactorau eraill perthnasol wrth wneud ei benderfyniadau, yn dibynnu ar holl amgylchiadau'r achos.

Caiff canllawiau'r Comisiwn Gamblo ar gyfer darpariaethau mynediad perthnasol ar gyfer pob math o fangre eu hatgynhyrchu yn Atodiad B.

## 2.3 Mangreoedd "parod ar gyfer gamblo"

Mae'r Canllawiau'n dweud mai dim ond yng nghyswllt mangre y gall yr awdurdod trwyddedu fod yn fodlon y cânt eu defnyddio ar gyfer gamblo yn y dyfodol rhesymol agos y dylid cyhoeddi trwydded i ddefnyddio mangre ar gyfer gamblo, yn gyson gyda maint y gwaith adeiladu neu newidiadau sydd eu hangen cyn dod â'r fangre i ddefnydd.

Os nad yw'r gwaith o adeiladu mangre wedi ei gwblhau eto, neu os oes angen ei addasu, neu os nad oes gan yr ymgeisydd hawl i'w meddiannu eto, yna dylid gwneud cais am ddatganiad darpariaethol yn lle hynny.

Wrth benderfynu os gellir dyfarnu trwydded mangre lle mae gwaith adeiladu neu addasu yn dal i'w wneud mewn mangre, bydd y Cyngor yn penderfynu ar geisiadau ar ei haeddiant, yn defnyddio proses ystyriaeth dau gam:

- Yn gyntaf, p'un ai a ddylid caniatáu defnyddio'r fangre ar gyfer gamblo;
- Yn ail, os gellir rhoi amodau priodol ar waith i ddarparu ar gyfer sefyllfa nad yw mangre eto yn y cyflwr y dylai fod cyn bod gamblo'n dechrau.

Dylai ymgeiswyr nodi fod gan yr awdurdod yma hawl i benderfynu os yw'n briodol dyfarnu trwydded gydag amodau, ond nad yw'n oblygiad arno i ddyfarnu trwydded o'r fath.

Mae enghreifftiau manylach o'r amgylchiadau ar gyfer dyfarnu trwydded ar gael yn y Canllawiau.

## 2.4 Ystyriaethau Eraill

### **Lleoliad:**

Mae'r Cyngor yn ymwybodol na ellir ystyried materion galw yng nghyswllt lleoliad mangre ond bod ystyriaethau yn nhermau'r amcanion trwyddedu yn berthnasol iddo wrth wneud penderfyniadau. Yn unol â Chanllawiau'r Comisiwn Gamblo i awdurdodau lleol, bydd y Cyngor yn rhoi sylw neilltuol i amddiffyn plant a phobl agored i niwed rhag cael eu niweidio neu gam-fanteisio arnynt, yn ogystal â materion o droseddau ac anrhefn. Pe penderfynid ar unrhyw bolisi penodol yng nghyswllt ardaloedd lle na ddylid lleoli mangre oedd gamblo, caiff y Datganiad hwn ei ddiweddarau. Dylid nodi nad yw unrhyw bolisi o'r math yn atal unrhyw gais rhag cael ei wneud a chaiff pob cais ei ystyried ar ei haeddiant, gyda'r cyfrifoldeb ar yr ymgeisydd i ddangos sut y gellir goresgyn unrhyw faterion posibl o gonsyrn.

### **Cynllunio**

Dywed Canllawiau'r Comisiwn Gamblo i Awdurdodau Trwyddedu:

- Wrth benderfynu ar geisiadau mae'n ddyletswydd ar yr awdurdod trwyddedu i roi ystyriaeth i bob mater perthnasol a pheidio rhoi ystyriaeth i unrhyw faterion amherthnasol, h.y. rhai heb fod yn gysylltiedig â gamblo a'r amcanion trwyddedu. Un enghraifft o fater amherthnasol fyddai'r tebygrwydd o ymgeisydd yn cael caniatâd cynllunio neu gymeradwyaeth rheoliadau adeiladu ar gyfer eu cynnig.

Ni fydd y Cyngor yn rhoi ystyriaeth i faterion amherthnasol fel yn y canllawiau uchod. Yn ychwanegol mae'r Cyngor yn nodi'r detholiad dilynol o'r Canllawiau:

- Wrth ddelio gyda chais am drwydded mangre ar gyfer adeiladau gorffenedig, ni ddylai'r awdurdod trwyddedu roi ystyriaeth i pu'n a oes gan yr adeiladau hynny'r caniatâd cynllunio neu adeiladu angenrheidiol neu'n cydymffurfio â hwy. Dylai'r materion hynny gael eu trin dan y pwerau rheoli cynllunio a rheoliadau adeiladu perthnasol, a dim bod yn rhan o'r ystyriaeth ar gyfer y drwydded mangre. Mae Adran 210 Deddf 2005 yn atal awdurdodau trwyddedu rhag rhoi ystyriaeth i debygrwydd cynnig gan yr ymgeisydd yn cael caniatâd cynllunio neu adeiladu wrth ystyried cais am drwydded mangre. Yn yr un modd nid yw dyfarnu trwydded mangre yn atal na rhwystro unrhyw weithredu a all fod yn briodol dan y gyfraith yn ymwneud â chynllunio neu adeiladu.

## 2.5 Dyblygu gyda Systemau Rheoleiddiol eraill:

Mae'r Cyngor yn ceisio osgoi unrhyw ddyblygu gyda systemau statudol/rheoleiddiol eraill lle'n bosibl, yn cynnwys cynllunio. Ni fydd y Cyngor yn ystyried os yw cais am drwydded yn debygol o gael caniatâd cynllunio neu gymeradwyaeth rheoliadau adeiladu wrth ei ystyried. Bydd serch hynny yn gwrando, ar ac yn ystyried yn ofalus, unrhyw faterion o gonsyrn am amodau na all y trwyddedeion eu cyflawni oherwydd cyfyngiadau cynllunio, pe byddai sefyllfa o'r fath yn codi.

Wrth ddelio gyda chais am drwydded mangre ar gyfer adeiladau gorffenedig, ni fydd y Cyngor yn rhoi ystyriaeth i pu'n yw'n rhaid i'r adeiladau hynny gydymffurfio gyda'r caniatâd cynllunio neu adeiladu perthnasol. Ni roddir ystyriaeth i risgiau tân neu iechyd a diogelwch, gan y caiff y materion hyn eu trin dan y rheoliadau am reoli cynllunio, adeiladau a rheoliadau eraill ac ni ddylent ffurfio rhan o'r ystyriaeth ar gyfer trwydded y fangre.

## 2.6 Amcanion Trwyddedu:

Mae'n rhaid i drwyddedau mangreoedd a roddir fod yn rhesymol gyson gyda'r amcanion trwyddedu. Yng nghyswllt yr amcanion hyn, mae'r Cyngor wedi ystyried Canllawiau'r Comisiwn Gamblo i awdurdodau trwyddedu a gwneir rhai sylwadau islaw.

### ***Atal gamblo rhag bod yn ffynhonnell troseddu neu anrhefn, bod yn gysylltiedig gyda throseddu neu anrhefn neu gael ei ddefnyddio i gefnogi troseddu:***

Mae'r Cyngor yn ymwybodol fod y Comisiwn Gamblo yn cymryd rôl arweiniol wrth atal gamblo rhag bod yn ffynhonnell troseddu. Fodd bynnag, mae Canllawiau'r Comisiwn Gamblo yn rhagweld y dylai awdurdodau lleol roi sylw i leoliad arfaethedig safleoedd gamblo yn nhermau'r amcan trwyddedu yma. Felly, lle gwyddys fod gan ardal lefelau uchel o droseddu cyfundrefnol, bydd y Cyngor yn ystyried yn ofalus os yw'n addas lleoli mangre gamblo yno ac os gallai amodau eraill fod yn addas megis darpariaeth goruchwylwyr drws. Mae'r Cyngor yn ymwybodol o'r gwahaniaeth rhwng anrhefn a niwsans a bydd yn ystyried ffactorau megis os oedd angen cymorth gan yr heddlu a pha mor fygythiol oedd yr ymddygiad i'r rhai a allai ei weld, er mwyn gwneud y gwahaniaeth hwnnw. Ni all materion o niwsans gael eu trin drwy ddarpariaethau'r Ddeddf Gamblo.

### ***Sicrhau y cynhelir gamblo mewn ffordd deg ac agored:***

Nododd y Cyngor bod y Comisiwn Gamblo yn dweud nad yw'n disgwyl i awdurdodau trwyddedu ymwneud â sicrhau y caiff gamblo ei gynnal mewn ffordd deg ac agored, gan y caiff hyn ei drafod drwy drwyddedau gweithredu a phersonol. Fodd bynnag, mae mwy o rôl yng nghyswllt traciau, a esbonnir yn fanylach yn yr adran "traciau".

### ***Amddiffyn plant a phersonau eraill agored i niwed rhag cael ei niweidio gan gamblo neu gam-fanteisio arnynt:***

Nododd y Cyngor fod Canllawiau'r Comisiwn Gamblo ar gyfer awdurdodau lleol yn dweud bod yr amcan yma'n golygu atal plant rhag cymryd rhan mewn gamblo (yn ogystal â chyfyngu hysbysebu fel nad yw cynnyrch gamblo wedi eu hanelu at blant neu'n neilltuol o ddeniadol i blant). Bydd y Cyngor felly'n ystyried, fel yr awgrymir yn y Canllawiau hyn, p'un ai oes angen mesurau penodol mewn mangreoedd neilltuol yng nghyswllt yr amcan trwyddedu yma. Gallai mesurau priodol gynnwys goruchwyliaeth mynedfeydd/peiriannau, gwahanu ardaloedd ac yn y blaen.

Mae'r Cyngor hefyd yn ymwybodol o'r Codau Ymarfer y mae'r Comisiwn Gamblo yn eu hystyried yng nghyswllt yr amcan trwyddedu yma, yng nghyswllt mangreoedd penodol.

Yng nghyswllt y term "pobl agored i niwed" nodir nad yw'r Comisiwn Gamblo yn cynnig diffiniad ond yn dweud y bydd " ar gyfer dibenion rheoliadol yn tybio fod y grŵp yma'n cynnwys pobl sy'n gamblo mwy nag y dymunent; pobl sy'n gamblo tu hwnt i'w modd; a phobl nad ydynt yn gallu gwneud penderfyniadau gwybodus neu gytbwys am gamblo oherwydd amhariad meddwl, alcohol neu gyffuriau". Bydd y Cyngor yn ystyried yr amcan trwyddedu yma ar sail achos wrth achos.

Canllawiau'r Comisiwn Gamblo i Awdurdodau Lleol yn nodi ystyriaethau y mae'n rhaid i weithredydd eu gwneud er mwyn amddiffyn plant a phobl ifanc rhag cael mynediad i fangreoedd gamblo.

Mae'r Amodau Trwyddedu a Chodau Ymarfer (LCCP) yn gosod sut mae'n rhaid i weithredwyr atal plant rhag defnyddio gweithgareddau hapchwarae neu gamblo y mae cyfyngiad oedran arnynt, yn neilltuol lle cafodd peiriannau gamblo eu trwyddedu.

Yn neilltuol mae'n rhaid i weithredwyr sicrhau:

- mae'r holl staff wedi'u hyfforddi (mae hyfforddiant ar gael o nifer o ffynonellau gan gynnwys yr Asiantaeth Adfer Caethiwed (ARA) a GamCare.
- bod pob cwsmer yn cael ei oruchwyllo pan fyddant ar safle gamblo
- rhaid cael gweithdrefnau ar gyfer nodi cwsmeriaid sydd mewn perygl o niwed cysylltiedig â gamblo a hefyd ble i gyfeirio pobl am gymorth.
- Yn ddiweddar cyhoeddodd GambleAware fapiau rhyngweithiol a fydd yn cael eu defnyddio gan awdurdodau lleol. Mae'r mapiau'n dangos pa mor gyffredin yw problemau gamblo ym mhob ardal yn ogystal â'r defnydd o driniaeth a niwed gamblo, a'r galw a adroddwyd amdanynt. Argymhellir hefyd bod gweithredwyr yn gyfarwydd â mapiau o'r fath.
- Mae nifer o ffynonellau y gellir eu defnyddio i gyfeirio pobl am gymorth gan gynnwys GamCare, a hefyd yn ogystal â darparu hyfforddiant, mae ARA yn darparu Triniaeth Caethiwed i Gamblo am ddim.

Bydd y Cyngor yn disgwyl i bob gweithredydd fod â pholisïau a gweithdrefnau ar waith fel sydd angen gan godau'r LCCP ar gyfrifoldeb cymdeithasol i gynnwys pob agwedd o'r cod, yn neilltuol gofnodion hyfforddiant staff a chofnodion hunan-eithrio.

Caiff darpariaethau pellach yng nghyswllt hunan-eithrio a marchnata eu cynnwys yn y cod cyfrifoldeb cymdeithasol. Bydd y Cyngor yn rhoi ystyriaeth i bob amod a chod wrth ystyried ceisiadau neu wneud gweithgareddau gorfodaeth.

Mae manylion pellach a gofynion y Cyngor yng nghyswllt yr LCCP yn adran 6 y datganiad polisi yma.

Bydd y Cyngor yn rhoi sylw i adroddiad Prif Swyddog Meddygol Cymru i gefnogi'r amcan trwyddedu er mwyn amddiffyn plant a phobl agored i niwed eraill rhag cael eu niweidio neu eu hecsbloetio gan gamblo. Mae'r adroddiad ar y cyd ar 'Wir Gost Gamblo' gan lechyd Cyhoeddus Cymru a Phrifysgol Bangor wedi'i gydnabod bod grwpiau poblogaeth sydd mewn mwy o berygl o brofi problemau gamblo a/neu niwed cysylltiedig â gamblo yn cynnwys:

- Plant, naill ai oherwydd eu hapchwarae eu hunain neu oherwydd bod rhieni neu ofalwyr yn gamblo.
- Unigolion sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig, gyda gamblo problemus dros saith gwaith yn uwch o gymharu ag unigolion sy'n byw yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig.

Byddai'r Cyngor yn disgwyl i ymgeiswyr a deiliaid trwydded gynnal y gwiriadau angenrheidiol ar yr holl aelodau staff perthnasol i sicrhau eu bod yn addas ar gyfer cyflogaeth, yn enwedig o ran adeiladau lle mae gan blant a phobl agored i niwed fynediad. Mae'r Cyngor yn cael ei arwain gan argymhelliad cyhoeddiad y Gymdeithas Llywodraeth Leol ar y dull y dylai Cyngorau ei fabwysiadu i fynd i'r afael â niwed sy'n gysylltiedig â gamblo.

Mae nifer o themâu diogelu y gellir eu cysylltu â gamblo sy'n gofyn am wylidwriaeth gan weithredwyr a deiliaid trwydded, a ddylai ystyried y materion a ganlyn:-

- masnachu mewn pobl a chaethwasiaeth fodern (gall hyn amlygu ei hun wrth i gyflogeion gael eu tra-arglwyddiaethu, cam-drin a throseddoldeb;

- camfanteisio'n rhywiol ar blant – gall plant gael eu denu at beiriannau gamblo drwy gael arian neu addewid o arian a all arwain at gamfanteisio arnynt a'u troseddoli;
- esgeulustod oherwydd caethiwed i gamblo.

## 2.7 Bet-Watch:

Mae'r Cyngor yn annog a bydd yn cefnogi gweithredwyr lleol i greu a chynnal rhwydwaith rhannu gwybodaeth i drafod materion gamblwyr problem a ddynodir. Bydd hyn hefyd yn gyfle i weithredwyr drafod materion gyda'r swyddogion trwyddedu.

## 2.8 Amodau:

Bydd unrhyw amodau sy'n gysylltiedig â thrwyddedau yn gymesur a byddant yn:

- Berthnasol i'r angen i wneud adeilad a gynigir yn addas fel cyfleuster gamblo;
- Yn uniongyrchol gysylltiedig â'r fangre a'r math o drwydded y gwneir cais amdani;
- Yn deg a rhesymol gysylltiedig i faint a math y fangre; a
- Rhesymol ym mhob cyswllt arall.

Caiff penderfyniadau ar amodau unigol eu gwneud ar sail achos wrth achos, er y bydd y Cyngor yn ystyried nifer o fesurau pe byddai angen tybiedig, megis defnyddio goruchwylwyr, arwyddion priodol ar gyfer ardaloedd i oedolion yn unig ac yn y blaen. Rhoddir sylw penodol i'r asesiad risg lleol ar gyfer pob adeilad wrth wneud penderfyniadau. Gwneir sylwadau penodol yn y cyswllt yma dan rai o'r mathau trwydded islaw. Bydd y Cyngor hefyd yn disgwyl i ymgeisydd am drwydded i gynnig eu hawgrymiadau eu hun am ffyrdd y gellir cyflawni'r amcanion trwyddedu yn effeithlon ar y cyd ag amodau gorfodol a bennir yn Rheoliadau Deddf Gamblo 2005 (Amodau Gorfodol a Diffyg) (Cymru a Lloegr) 2007.

Conditions the Council may impose on a licence could include:-

### Security conditions

- A minimum of two members of staff after 10pm;
- The premises will have an intruder alarm and panic button;
- A monitor shall be placed inside the premises above the front door showing CCTV images of customers entering the premises.
- 

### Anti-social behaviour conditions

- The licensee shall develop and agree a protocol with the police as to incident reporting, including the type and level of incident and mode of communication, so as to enable the police to monitor any issues arising at or in relation to the premises;
- The licensee shall place and maintain a sign at the entrance which states that 'only drinks purchased on the premises may be consumed on the premises';
- The licensee shall implement a policy of banning any customers who engage in crime or disorder within or outside the premises.

### Underage controls

- Customers under 21 will have to provide ID;
- No machines in the Unlicensed Family Entertainment Centre to be sited within one metre of the Adult Gaming Centre entrance;



- Staff training records or certified copies should be available at the premises for inspection.
- 

#### Player protection controls

- There shall be no cash point or ATM facilities on the premises;
- The licensee shall train staff on specific issues related to the local area and shall conduct periodic refresher training. Participation in the training shall be formally recorded and the records produced to the police or licensing authority upon request;
- Prominent Gam Care documentation will be displayed at the premises.

This list is not exhaustive and merely gives an example of the type of conditions which may be imposed depending on the circumstances at each premises.

Bydd y Cyngor hefyd yn ystyried mesurau penodol, y gall fod eu hangen ar gyfer adeiladau sydd â thrwyddedau mangreoedd lluosog. Gall mesurau o'r fath gynnwys goruchwyllo mynedfeydd; gwahanu ardaloedd gamblo oddi wrth ardaloedd dim gamblo y mae plant yn eu mynychu; a goruchwyllo peiriannau hapchwarae mewn mangreoedd penodol i gamblo heb fod i oedolion er mwyn cyflawni'r amcanion trwyddedu. Mae'r materion hyn yn cydymffurfio â Chanllawiau'r Comisiwn Gamblo a chodau ymarfer.

Bydd y Cyngor hefyd yn sicrhau lle mae peiriannau categori C neu uwch ar gael mewn mangreoedd y caiff plant fynediad iddynt:

- Bod pob peiriant o'r fath wedi eu lleoli mewn rhan o'r fangre sydd wedi ei wahanu o weddill y fangre gan rwystr ffisegol sy'n effeithlon i atal mynediad heblaw drwy fynedfa benodol;
- Dim ond oedolion a gaiff eu derbyn i'r ardal lle mae'r peiriannau hyn wedi eu lleoli;
- Caiff mynediad i'r ardal lle mae'r peiriannau ei oruchwyllo;
- Trefnir yr ardal lle lleolir y peiriannau hyn fel y gall y staff neu ddeiliad trwydded ei weld;
- Bod hysbysiadau wedi eu dangos mewn lle amlwg wrth y fynedfa i a thu mewn i unrhyw ardaloedd o'r fath yn nodi bod mynediad i'r ardal wedi ei wahardd i bobl dan 18 oed.

Bydd yr ystyriaethau hyn yn weithredol i fangreoedd, yn cynnwys adeiladau lle mae trwyddedau mangreoedd lluosog yn weithredol.

Mae'r Cyngor yn ymwybodol y gall un neu fwy trwydded fangre fod ar draciau, os yw pob trwydded yn cyfeirio at ardal benodol o'r trac. Fel yng Nghanllawiau'r Comisiwn Gamblo, bydd y Cyngor hwn yn ystyried yr effaith ar y trydydd amcan trwyddedu a'r angen i sicrhau bod mynedfeydd i bob math o fangre yn neilltuol ac y caiff plant eu heithrio o ardaloedd gamblo na chaniateir iddynt fynd i mewn iddynt.

Nodir fod amodau na all y Cyngor eu gosod ar drwyddedau mangre sef:

- Unrhyw amod ar y drwydded fangre sy'n ei gwneud yn amhosibl cydymffurfio gydag amod trwydded weithredu;
- Amodau ar gategoriâu, niferoedd neu ddull gweithredu categorïau peiriant hapchwarae;
- Amodau sy'n golygu y gall fod angen bod yn aelod o glwb neu gorff (mae Deddf Gamblo 2005 yn benodol yn dileu'r gofyniad aelodaeth ar gyfer clybiau casino a bingo ac mae'r ddarpariaeth yma'n ei atal rhag cael ei ailosod); ac

- Amodau yng nghyswllt arian chwarae, ffioedd, ennillion neu wobrau.

## **2.9 Goruchwylwyr Drws:**

Yn ei ganllawiau i awdurdodau trwyddedu mae'r Comisiwn Gamblo yn awdurdodi os yw'n bryderus y gall mangre ddenu anrhefn, neu fod yn destun ymgais i gael mynediad heb awdurdod (e.e. gan blant a phobl ifanc) yna y gall ei gwneud yn ofynnol bod mynedfeydd i'r fangre yn cael eu rheoli gan oruchwylwr drws, gyda hawl i osod trwydded mangre i'r perwyl hwn.

Lle penderfynir bod goruchwyllo mynedfeydd/peiriannau yn addas ar gyfer achosion neilltuol, bydd angen ystyried p'un ai oes angen iddynt fod â thrwydded SIA ai peidio. Ni thbyir yn awtomatig y bydd angen iddynt gael eu trwyddedu gan fod y gofynion statudol ar gyfer gwahanol fathau o fangreoedd yn amrywio.

## **2.10 Canolfannau Hapchwarae Oedolion**

Bydd y Cyngor yn rhoi ystyriaeth benodol i'r angen i amddiffyn plant a phobl agored i gamblo eu niweidio neu gamfanteisio arnynt a bydd yn disgwyl i'r ymgeisydd fodloni'r Cyngor y bydd mesurau digonol i, er enghraifft, sicrhau nad oes gan rai dan 18 oed fynediad i'r fangre.

Lle darperir cyfleusterau gamblo mewn mangre fel gweithgaredd atodol i brif ddiben y fangre, e.e. ardaloedd gwasanaeth traffyrdd a chanolfannau siopa, bydd y Cyngor yn disgwyl i'r ardal gamblo gael ei diffinio'n glir i sicrhau fod cwsmeriaid yn llwyr ymwybodol eu bod yn dewis mynd i mewn i fangre gamblo ac y caiff y fangre ei goruchwyllo'n ddigonol bob amser.

Rhaid i drwyddedeion beidio â darparu cyfleusterau gamblo yn fwriadol mewn modd sy'n apelio'n arbennig at blant neu bobl ifanc, er enghraifft drwy adlewyrchu neu fod yn gysylltiedig â diwylliant ieuenctid. Bydd y Cyngor yn disgwyl i eiddo a ddefnyddir yn unig ar gyfer Hapchwarae Oedolion gael gorchuddio ffenestri a drysau mewn modd sy'n atal plant rhag edrych i mewn i'r lleoliad fel mesur ychwanegol i atal y cyfleusterau rhag apelio at blant a phobl ifanc. e.e. Ffilm ffenestr, sgrin preifatrwydd ar allanfa ac allanfeydd i atal gwyllo y tu mewn.

## **2.11 Canolfannau Adloniant Teulu (Trwyddedig)**

Bydd y Cyngor yn rhoi ystyriaeth benodol i'r angen i ddiogelu plant a phobl agored i niwed rhag i gamblo eu niweidio neu gamfanteisio arnynt a bydd yn disgwyl i'r ymgeisydd fodloni'r Cyngor, er enghraifft, y bydd mesurau digonol i sicrhau nad oes gan bobl ifanc dan 18 oed fynediad i ardaloedd peiriannau hapchwarae i oedolion yn unig. The applicant for a Family Entertainment Centre provide evidence that a suitable criminal record check with the Disclosure and Barring Service (DBS) has been conducted on all staff in his/her employment.

Children and young persons are permitted entry to licensed FECs but are not permitted to play Category C machines. The Council expects the applicant to ensure that there will be sufficient measures in place to prevent under 18 year olds having access to the adult only gaming machine areas. The Council will expect applicants to meet the licensing objectives and comply with all mandatory conditions and Codes of Practice issued by the Gambling Commission.

There is a requirement that there must be clear segregation between the types of machine in order that children do not have access to Category C machines. All Category C machines must be located in an area of the premises which is separate from the remainder of the premises by a physical barrier, which will prevent access other than through a designated entrance. The Council will seek to ensure that:

- only adults are admitted to the area where the machines are located;
- access to the area where the machines are located is supervised;
- the area where the machines are located is arranged so that it can be observed by staff of the operator or the licence holder; and
- at the entrance to, and inside any such area there are prominently displayed notices indicating that access to the area is prohibited to persons under 18

## **2.12 Casinos**

Nid yw'r Cyngor wedi pasio penderfyniad "dim casino" dan Adran 166 Deddf Gamblo 2005 ond mae'n ymwybodol fod ganddo'r grym i wneud hynny. Pe byddai'r Cyngor yn penderfynu pasio penderfyniad o'r fath yn y dyfodol, bydd yn diweddarau'r Datganiad Polisi yma gyda manylion y penderfyniad hwnnw. Caiff unrhyw benderfyniad o'r fath ei wneud gan y Cyngor llawn.

### ***Ystyriaethau/Amodau Trwydded:***

Bydd y Cyngor yn gosod amodau ar drwyddedau mangreoedd casino yn unol â'r egwyddorion a nodir yng Nghanllawiau'r Comisiwn Gamblo, gan gadw mewn cof yr amodau gorffodol a gyhoeddwyd yn y Canllawiau, a'r Amodau a Chodau Ymarfer Trwydded a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Gamblo.

### ***Peiriannau Betio:***

Yn unol â Chanllawiau'r Comisiwn Gamblo, bydd y Cyngor yn rhoi ystyriaeth i faint y fangre, nifer y safleoedd cownter sydd ar gael ar gyfer trafodion person-i-person, a gallu staff i fonitro defnydd peiriannau gan blant a phobl ifanc (mae'n drosedd i rai dan 18 fetio) neu gan bobl agored i niwed wrth ystyried nifer/natur/amgylchiadau peiriannau betio y mae gweithredydd eisiau eu cynnig.

## **2.13 Mangreoedd Bingo**

Bydd angen i Awdurdodau Trwyddedu eu bodloni eu hunain y gellir chwarae bingo mewn unrhyw fangre bingo y maent yn cyhoeddi trwydded mangre ar ei chyfer. Bydd hyn yn ystyriaeth berthnasol lle mae gweithredydd mangre bingo presennol yn gwneud cais i amrywio eu trwydded i eithrio ardal o'r fangre bresennol o'i gylch ac yna'n gwneud cais am drwydded mangre newydd, neu drwyddedau lluosog, ar gyfer yr ardal neu ardaloedd hynny a eithrir.

Y gall deiliad trwyddedau mangre bingo wneud nifer o beiriannau hapfasnachu categori B ar gael i'w defnyddio, heb fod yn fwy na 20% cyfanswm nifer y peiriannau hapfasnachu sydd ar gael i'w defnyddio yn y fangre.

Caniateir i blant a phobl ifanc fynd i mewn i fangre bingo; fodd bynnag ni chaniateir iddynt gymryd rhan yn y bingo ac os oes peiriannau categori B neu C ar gael i'w defnyddio, yna mae'n rhaid gwahanu'r rhain o ardaloedd lle caniateir plant a phobl ifanc.

Where Category C or above machines are available in the bingo premises to which children are admitted, the Council will seek to ensure that:-

- all such machines are located in an area of the premises separate from the remainder of the premises by a physical barrier to prevent access other than through a designated entrance;
- only adults are admitted to the area where the machines are located;
- access to the area where the machines are located is supervised;
- the area where the machines are located is arranged so that it can be observed by staff or the licence holder; and
- at the entrance to, and inside any such area, notices are prominently displayed indicating that access to the area is prohibited to persons under 18.

Where bingo is permitted in alcohol-licensed premises, this must be low turnover bingo only and applicants are expected to comply with any Codes of Practice and advice issued by the Gambling Commission. High turnover bingo will require a Bingo Operating Licence.

## **2.14 Mangroedd Gamblo**

### *Self Service Betting Terminals (SSBTs):*

